

**PWYLLGOR SGRIWTINI
PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Derlwyn R Hughes (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Alun W Mummery (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Carwyn Jones, Robert Ll Jones,
Dylan Rees

Aelodau eraill y Cyngor Sir a oedd yn bresennol

Y Cyngorwyr Llinos Medi Huws, John Griffith, Ieuan Williams
(Aelod Portffolio yr Ynys Egni, Prosiectau Sylweddol a'r Iaith
Gymraeg)

Aelod Cyfetholedig

Mr Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig Rufeinig)

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid
Prosesau Busnes)
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a
Gwella Gwasanaethau)
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Dysgu
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Datblygu a Strategaeth Tai (LR)
Rheolwr Cyflenwi Diogelwch Cymunedol (CER)
Uwch Ymgynghorydd Her (GwE) (EVJ)
Ymgynghorydd Her Ysgolion (GwE) (IJ)
Ymgynghorydd Her Ysgolion (GwE) (SG)
Ymgynghorydd Her Ysgolion (GwE) (MH)
Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth Ysgolion (GwE) (PM)
Swyddog Sgriwtini (GR)
Swyddog Pwyllgor (SC)

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas, y Cyngorydd Hywel
Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid)
Gerallt Llewelyn Jones (Menter Môn)

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Y Cyngorwyr Aled Morris Jones (Aelod Portffolio
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai); Kenneth P Hughes (Aelod
Portffolio Addysg)

1. YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2016 fel rhai cywir.

4. CYD-BROTOCOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER RHEOLI GWERSYLLOEDD ANAWDURDODEDIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Tai ar wersylloedd anawdurdodedig yng Ngogledd Cymru.

Yn 2013, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw '*Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod*' a gafodd ei gylchredeg i'r holl awdurdodau yn 2015. Mae'r Canllawiau yn rhoi cyngor ar rôl y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr o ran cynorthwyo'r awdurdodau lleol mewn perthynas â gwersylloedd anawdurdodedig, ac yn argymhell fod pob awdurdod yn mabwysiadu protocol ar gyfer eu sefydliadau.

Datblygwyd Cyd-Brotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr Anawdurdodedig gan Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru yn unol ag egwyddorion cyson cytunedig, gan ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal safonau a lleihau effeithiau negyddol gwersylloedd.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai bod Fforwm Prif Weithredwyr Gogledd Cymru wedi ystyried y Protocol, a dywedodd y byddai'n croesawu sylwadau'r Pwyllgor arno cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

Rhoes y Pennaeth Gwasanaethau Tai grynodedeb o'r adroddiad. Dywedodd fod y Cyngor yn gweithredu'r protocol ar hyn o bryd, sydd yn gyson o ran ei amcanion, ac yn deg i deithwyr, busnesau a pherchnogion tir lleol. Mae'r protocol yn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â gwersylloedd anawdurdodedig ar dir y Cyngor a thir preifat.

Rhoes y Rheolwr Datblygu a Strategaeth Tai ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â theithwyr sy'n byw mewn gwersylloedd yn ardal Caergybi ar hyn o bryd. Adroddodd fod rhybuddion wedi eu cyflwyno i deithwyr mewn dau leoliad gwahanol, ond eu bod wedi symud i leoliad arall erbyn hyn. Adroddodd y Rheolwr hefyd ei bod mewn cysylltiad ag Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Conwy er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â theithwyr.

Trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn:-

- Mae teithwyr yn tueddu i wersylla ar dir y Cyngor yn hytrach nag ar dir preifat, gan fod teithwyr yn ymwybodol bod y Cyngor yn wynebu proses gyfreithiol hirfaith er mwyn eu troi nhw allan.
- Mewn perthynas â busnesau ar safle Mona, dylai'r Cyngor ofyn i fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru geisio barn y Ffederasiwn Busnesau Bach, er mwyn tynnu eu sylw at y Protocol, ac i roi cyfle iddynt gynnig sylwadau.
- Nodwyd bod swyddogion prosiect yn y broses o fapio safleoedd ar gyfer datblygu safleoedd teithwyr awdurdodedig, a ddylai fod yn weithredol ymhen deuddeng mis.
- Mewn perthynas â'r gwersylloedd newydd, nodwyd bod swyddogion y Cyngor yn ymweld â, ac yn asesu, safleoedd teithwyr o fewn diwrnod neu ddau iddynt gael eu meddiannu. Mae'n rhaid i'r Protocol fod yn hyblyg a rhoi ystyriaeth i anghenion lleol. Gall gorchmynion gorfodaeth amrywio oherwydd bod y Llysoedd ar gau ar benwythnosau.

Mynychodd y Rheolwr Datblygu a Strategaeth Tai Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru, sydd wedi bod yn rhan o'r broses o lunio'r Protocol. Roedd trafodaethau'r Fforwm yn canolbwyntio ar brofiadau amrywiol awdurdodau lleol wrth ymdrin â gwersylloedd teithwyr, yn arbennig sut y gellir gorfodi pwerau'r Cyngor mewn gwahanol ardaloedd. Adroddodd y Rheolwr hefyd fod y Cyngor yn gweithio ar ddogfen weithdrefnol fydd yn darparu mwy o fanylion am y broses o ddwyn achos Llys. Bydd y ddogfen yn cynnwys arweiniad i staff y Cyngor ar sut i ymateb i deithwyr; dull y Cyngor o benderfynu pa gamau i'w cymryd; y llwybrau cyfreithiol sy'n agored i'r Cyngor, a'r amserlen weithredu. Bydd gofyn i Swyddogion wneud penderfyniadau ar sail yr amgylchiadau sy'n eu hwynebu ym mhob gwersyll unigol.

PENDERFYNWYD:-

- **Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r Protocol.**
- **Gofyn i Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru ymgymryd â gwaith pellach gyda busnesau yng Ngogledd Cymru i geisio eu barn ar y ddogfen ac i godi ymwybyddiaeth am ei bodolaeth.**
- **Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ddatblygu gweithdrefnau mwy manwl at ddefnydd swyddogion ac asiantaeth eraill ar yr Ynys.**

5. PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (YNYS MÔN A GWYNEDD)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Cyflenwi Diogelwch Cymunedol (Ynys Môn a Gwynedd) yn rhoi trosolwg o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd yn ystod 2015/16 a'r datblygiadau ar gyfer 2016/17.

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn bob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yr ymgymeryd â hwy. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymyiadau yn

unol ag Adran 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol.

Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â:-

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a wneir ar sail ranbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai at y negeseuon cadarnhaol a dderbyniwyd a welir ym mhwynt 4 yr adroddiad fel a ganlyn:-

- Mae troseddau meddiangar yn Ynys Môn yn isel o gymharu ag ardaloedd eraill;
- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau ers 2012;
- Mae'r niferoedd o bobl yn adrodd am drais yn y cartref ar gynnydd ers 2012, ac mae hynny i'w groesawu;
- Mae nifer y troseddau rhyw sy'n cael eu hadrodd wedi aros yr un fath;
- Mae ail-droseddu wedi gostwng.

Adroddodd y Swyddog Cefnogi, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (Ynys Môn a Gwynedd) bod cais wedi ei wneud, yn ystod y cyfarfod blaenorol ddeunaw mis yn ôl, am fwy o ddata ar berfformiad, ac mae hyn bellach wedi ei gynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiad. Amlinellodd y Swyddog Cefnogi yr adroddiad a chyfeiriodd at y prif gerrig milltir y daethpwyd ar eu traws yn ystod 2016/17 sydd i'w gweld mhwynt 6 yr adroddiad.

Cododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi arwain mewn perthynas â throsglwyddo rhai gwasanaethau i system ranbarthol, mabwysiadu strwythur rhanbarthol mewn rhai meysydd gwaith y byddent yn atebol amdanynt.
- Cymharwyd lefelau ail-droseddu yn Ynys Môn gydag ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru a dengys y ffigyrau dueddiad tuag at i lawr, gyda chynnydd bychan o safbwynt aildroseddu ymysg oedolion.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes cynllun strategol yn ei le er mwyn ymdrin â throseddwyr yn CEM Berwyn, Wrecsam yn y dyfodol. **Awgrymwyd fod cynrychiolydd o'r carchar newydd yn dod i gyfarfod y Cyngor Sir neu'r Pwyllgor Sgriwtini i roi cyflwyniad ar waith ataliol a chydweithio.** Mae Bwrdd Rhanbarthol Goruchwylio Carchar yn bodoli eisoes, a bydd cyrff

eraill yn gweithio o'r carchar o fewn cynllun rhanbarthol, fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Ynys Môn.

- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â sut fydd CEM Berwyn yn cael ei farchnata a'i hyrwyddo. Nodwyd bod staffio o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi lleihau'n sylweddol, sydd wedi arwain at gyfyngu ar gyllid ac adnoddau ar gyfer marchnata.
- Tynnwyd sylw at effeithiau camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau yn y gymuned mewn perthynas â lladradau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nodwyd bod camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn Ynys Môn yn debyg i ardaloedd eraill ond bod y gwasanaethau'n wynebu heriau mawr, oherwydd argaeledd cyffuriau newydd e.e. 'sylweddau anterth cyfreithiol' (*legal highs*), canabis synthetig ayb. Nodwyd hefyd bod gwaith yn cael ei wneud yn rhanbarthol gyda thimau llai oherwydd cyfyngiadau o ran arian ac adnoddau. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio erbyn hyn gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal, ac mae nifer o adolygiadau gwasanaeth yn cael eu cynnal.

Nodwyd llwyddiant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Mae nifer y troseddwyd tro cyntaf a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth wedi gostwng yn sylweddol, ac ychydig iawn o oedolion ifanc sy'n derbyn dedfryd o garchar.

Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.

PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad a'r atodiadau a chefnogi'r blaenoriaethau a'r gwaith i'r dyfodol.

6. EFFEITHIOLRWYDD CEFNOGAETH GWE WRTH WELLA DEILLIANAU YSGOLION CATEGORIAU COCH AC OREN 2014-16

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Her (GwE) yn amlinellu dadansoddiad o ganlyniadau gwaith a ymgwymerwyd gan y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE) mewn ysgolion categori oren a choch yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod 2014/16.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at y broses hunan arfarnu a gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor sgriwteiddio'r agweddau allweddol canlynol:-

- Sut mae'r Awdurdod yn monitro ac yn herio gwaith GwE?
- Sut mae'r Awdurdod yn gwybod os yw'n cael gwerth am arian gan GwE?
- Sut mae'r Awdurdod yn sicrhau bod gwaith GwE wedi'i alinio gyda chynlluniau a bwriadau lleol a bod yr agweddau allweddol sydd angen sylw yn cael eu targedu'n effeithiol?
- Pa wahaniaeth y mae cefnogaeth GwE wedi'i gael ar ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth yn ysgolion categori oren a choch yn Ynys Môn?
- Ym mha ysgolion y gwelir y gwahaniaethau amlycaf?
- Pa agweddau sydd angen eu blaenoriaethu wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau gwelliannau pellach?

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Her fod GwE yn cydweithio â nifer o ysgolion, rhai ohonynt fel astudiaethau achos, sydd yn ddiennw. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i seilio'n bennaf ar berfformiad ysgolion cynradd, ond cyfeiriwyd hefyd at y ddwy ysgol uwchradd categori melyn/coch yn Ynys Môn y llynedd. Dim ond gydag un o'r ddwy ysgol uwchradd y bu GwE'n gweithio ac arweiniodd hynny at welliant sylweddol rhwng 2015/16. Roedd yr ysgol arall, a oedd yn rhan o'r blaengaredd cenedlaethol 'Her Ysgolion Cymru', a oedd yn cael ei arwain a'i fonitro gan y Gweinidog Addysg, wedi gwneud llai o gynnydd.

Rhoes yr Uwch Ymgynghorydd her grynoded o berfformiad yn erbyn dangosyddion yn ysgolion Ynys Môn. Dywedodd mai prif gyfrifoldebau GwE oedd darparu arweiniad a chefnogaeth a gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i roi sylw i unrhyw heriau, er mwyn datblygu system addysg fydd â'r cynhwysedd, y sgiliau a'r hyder i ymgymryd â rhaglen hunan-wella.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:-

- Mae hybiau Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio'n dda, ond mae angen parhau i'w gwella. Mae'r model cefnogi ysgolion a ddefnyddir ar hyn o bryd wedi cael ei addasu o ganlyniad i ganfyddiadau Estyn.
- Cyfeiriwyd at adroddiad Estyn, Ebrill 2016, a oedd yn nodi bod gormod o ffocws wedi ei roi ar wella ysgolion yn y categori oren/coch o gymharu â grwpiau eraill. Nodwyd bod ysgolion yn y categori hwn angen cefnogaeth fwy dwys er mwyn datblygu eu gallu i wella yn unol ag anghenion penodol. Mae ysgolion gorau'r Awdurdod yn rhagori o safbwynt perfformiad ac nid ydynt angen yr un lefel o gefnogaeth.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y modelau categoreiddio ysgolion. Nodwyd bod yr Ymgynghorwyr Her yn trafod a monitro gwaith a pherfformiad ysgolion. Er bod cam 1 y broses categoreiddio yn cael ei yrru gan ddata, Ymgynghorwyr Her ar y cyd â'r Awdurdod Addysg sy'n penderfynu'n derfynol ar categorïau lliw ar sail gallu pob ysgol i wella ac ansawdd yr arweinyddiaeth.
- Nodwyd bod GwE yn defnyddio fformiwla i wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn buddsoddi mewn ysgolion sydd fwyaf angen cefnogaeth. Yn dilyn cyfnod o ymyrraeth gan Ymgynghorwyr Her i wella safonau, mae disgwyl i Benaethiaid redeg ysgolion yn effeithiol ar eu pennau eu hunain.
- Er bod meysydd ar gyfer gwella wedi eu hadnabod, cafwyd adborth cadarnhaol yn dilyn cyfarfodydd Penaethiaid a rhanddeiliaid eraill gydag Estyn ynghylch model newydd o weithio GwE, sy'n rhoi pwyslais ar agweddau cefnogi gwell.
- Os nad yw ysgolion yn ymateb yn bositif i'r heriau a'r gefnogaeth a ddarperir gan GwE, yna mae cyfrifoldeb ar yr Adran Addysg i ddatrys y materion a sicrhau bod ysgolion yn gwella. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Awdurdod a GwE, fel bod modd monitro cynnydd ysgolion ac mae cyrff llywodraethu'n cael gwybodaeth am ddatblygiadau. Rhoddir cynlluniau gweithredu yn eu lle, ac mae Penaethiaid, timau rheoli a chyreff llywodraethu'n gweithio i amserlenni cytunedig.

Adroddodd Ymgynghorwyr Her GwE ar dair astudiaeth achos mewn ysgolion lle rhoddwyd cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i ysgolion cynradd yn dilyn ymyrraeth gan GwE. Y materion a gafodd eu hadnabod mewn perthynas â pherfformiad

gwael mewn ysgolion oedd - safonau gwael; angen gwella'r dysgu a'r addysgu e.e. rhifedd; angen datblygu sgiliau arweinyddiaeth ayb. Rhoddwyd cynlluniau rheoli yn eu lle er mwyn gwella, a chafodd cynnydd ei fonitro ac adroddwyd i Lywodraethwyr Ysgol. Yn ystod y broses ymyrraeth, roedd gofyn hefyd i Ymgynghorwyr Her ymateb i argymhellion gan ar gyfer gwella gan Estyn. Yn dilyn ymyrraeth GwE, mae safonau mewn ysgolion wedi gwella yn sgil lefel y gefnogaeth a dderbyniwyd ynghyd â chymorth gan Benaethiaid, staff ysgolion a Llywodraethwyr, sy'n gweithio ar y cyd.

PENDERFYNWYD:

- **Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas ag effeithiolrwydd cyfraniad GwE i wella deilliannau'r ysgolion yn y categorïau Oren/Coch.**
- **Nodi a chefnogi argymhellion yr adroddiad i wella ysgolion yn y categori Oren/Coch.**

7. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai 2017.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2016 gyda'r eitemau canlynol ar agenda'r cyfarfod:-

- Trawsnewid Gwasanaethau Ieuencid
- Cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn

Bydd cynrychiolydd o BIPBC a swyddogion y Cyngor yn bresennol i roi cyflwyniad ar gydweithio rhwng BIPBC a'r Cyngor Sir. Nod y sesiwn fydd sgrwtineiddio integreiddio gwasanaethau ac awgrymu sut y gellir eu gwella er budd pobl Ynys Môn.

Cytunodd y Pwyllgor mai 'Trawsnewid Gwasanaethau Ieuencid' fyddai'r eitem gyntaf ar yr agenda, ac y byddai'r eitem BIPBC yn cychwyn am 3.15 pm, a gwahoddir Aelodau'r Panel Sgriwtini Corfforaethol i fod yn bresennol.

PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith a gyflwynwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.25 pm

**Y CYNGHORYDD DERLWYN R HUGHES
CADEIRYDD**